OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 1096 (Cy. 248)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cyfnewidfa Aberdulais i Gyfnewidfa Castell-nedd, Castell-nedd Port Talbot) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *9 Hydref 2020* |
| *Yn dod i rym* | *12 Hydref 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A465, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a/neu gyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cyfnewidfa Aberdulais i Gyfnewidfa Castell-nedd, Castell-nedd Port Talbot) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2020 a daw i rym ar 12 Hydref 2020.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**2**); a

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 12 Hydref 2020 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A465 Castell-nedd i'r Fenni;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

### Gwaharddiadau a Chyfyngiadau

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd sy'n 2.9 metr o led neu'n lletach ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

**6.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

**7.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

---

(**2**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

**Cymhwyso**

**8.**—(1) Ni fydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

**Atal Dros Dro**

**9.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 6 a 7 yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**10.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 9 Hydref 2020

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

**ATODLEN 1**
**Gwahardd Cerbydau Dros Dro**

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd wrth Gyfnewidfa Aberdulais sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain.

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd wrth Gyfnewidfa Aberdulais sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin.

Y darnau o'r ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r dwyrain a thua'r gorllewin wrth Gyfnewidfa Aberdulais.

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r gerbytffordd gylchredol wrth Gyfnewidfa Castell-nedd hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyfnewidfa Aberdulais.

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyfnewidfa Aberdulais hyd at ei

chyffordd â'r gerbytffordd gylchredol wrth Gyfnewidfa Castell-nedd.

## ATODLEN 2
## Gwahardd Beicwyr Dros Dro

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd wrth Gyfnewidfa Aberdulais sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain.

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd wrth Gyfnewidfa Aberdulais sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin.

Y darnau o'r ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r dwyrain a thua'r gorllewin wrth Gyfnewidfa Aberdulais.

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyfnewidfa Castell-nedd hyd at ei chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Resolfen, gan gynnwys y ffyrdd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyfnewidfeydd Castell-nedd ac Aberdulais.

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Resolfen hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyfnewidfa Castell-nedd gan gynnwys y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyfnewidfa Aberdulais.

## ATODLEN 3
## Terfynau Cyflymder 30 mya neu 50 mya Dros Dro

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 1.5 cilometr i'r gorllewin o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyfnewidfa Aberdulais hyd at bwynt 1.5 cilometr i'r dwyrain o drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth y gyfnewidfa honno.

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 1.5 cilometr i'r dwyrain o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyfnewidfa Aberdulais hyd at bwynt 1.5 cilometr i'r gorllewin o drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth y gyfnewidfa honno.